# CYD-BWYLLGOR CRAFFU DINAS-RANBARTH BAE ABERTAWE

## (CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR PORT, TALBOT A MICROSOFT TEAMS)

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Mawrth, 8 Hydref 2024**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd T.Bowen** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd D.Cundy** |
| **Cynghorwyr**: | S.Yelland, M.Bowen, G.Morgan, R.Sparks, V.Holland, C.Holley a/ac A.Dacey |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | J. Burnes L.Willis and S.Aldred-Jones and T.Rees |

1. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod y Gwasanaethau Democrataidd wedi derbyn ymddiheuriadau gan y Cynghorydd R.Wood a'r Cynghorydd J. Curtice.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau.

3. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25/07/24 fel cofnod cywir.

4. **Y DIWEDDARAF AM GYNNYDD CEFNOGI ARLOESEDD A THWF CARBON ISEL**

Rhoddodd Lisa Willis, Rheolwr y Rhaglenni Ariannu Strategol, yr wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am gynnydd y rhaglen cefnogi arloesedd a thwf carbon isel.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod rheolwr blaenorol y rhaglen wedi cymryd rôl arall yng Nghyngor Sir Castell-nedd Port Talbot ac mae'r rôl wedi cael ei hysbysebu ond heb ei llenwi. Mae Lisa Willis wedi cymryd yr awenau fel rheolwr y rhaglen ac mae ei swyddog raglen yn ei chefnogi.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod gan bob un o'r prosiectau ei reolwr prosiect ei hun sy'n adrodd i Lisa Willis, felly nid oes risg i gyflawniad oherwydd y newid.

Rhoddwyd trosolwg i'r aelodau o bob un o'r 8 prosiect rhyng-gysylltiedig a nod pob un ohonynt yw sicrhau twf economaidd carbon isel, cynaliadwy a chynhwysol i'r rhanbarth.

Canolfan Dechnoleg y Bae

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau mai adeilad ynni-gadarnhaol hybrid yw hwn, ac ar hyn o bryd mae 53% ohono wedi'i lenwi. Eglurodd swyddogion y disgwylir i dri chwmni arwyddo prif delerau ac roedd swyddogion hefyd ar fin cyhoeddi prif delerau eraill i gwmni arall. Ar hyn o bryd mae swyddogion yn cynnal trafodaethau gyda chwmni ychwanegol; byddai hyn yn golygu y dylai 5 cwmni arall ymuno dros y ddau fis nesaf.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau bod y cyfleuster yn cael ei hyrwyddo drwy'r wefan a thrwy gyfryngau cymdeithasol ac mai'r tenant diweddaraf i gyrraedd yw'r Catapwlt Cynhyrchu Gwerth Uchel ac mae wedi sefydlu swyddfa yng Nghanolfan Dechnoleg y Bae. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau fod ganddynt offer o'r radd flaenaf sy'n cefnogi busnesau ar draws y rhanbarth, Cymru a'r DU.

Canolfan Ddiwydiannol Pontio o Garbon De Cymru (SWITCH)

Dywedodd swyddogion fod SWITCH yn cefnogi datgarboneiddio'r diwydiant dur a metelau a Phrifysgol Abertawe yw'r partner cyflawni. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod y cam dylunio 12 mis wedi dod i ben gydag ymgynghoriad cyn ymgeisio y bwriedir ei gyflwyno'n fuan a bydd cam adeiladu 15-18 mis yn dilyn hyn a disgwylir iddo gael ei gwblhau ar ddiwedd 2026.

Roedd swyddogion yn teimlo bod hwn yn brosiect cyffrous, ac mae hefyd wedi addasu i newidiadau gyda chyhoeddiad Tata Steel sy'n edrych ar ddatgarboneiddio dur yn ogystal â'r diwydiant dur a metelau ar draws y rhanbarth.

Cyfleuster cynhyrchu gweithgynhyrchu uwch

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y bu oedi gyda'r prosiect hwn o ran trafod opsiynau tir a sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r dirwedd arloesi. Mae swyddogion yn siarad â Llywodraeth Cymru ynghylch yr ardaloedd tir ac yn ymgysylltu â phartneriaid ar hyn. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau hefyd fod llawer o ddiddordeb yn hyn o ran arallgyfeirio diwydiant ar draws Castell-nedd Port Talbot a'r rhanbarth ehangach.

Canolfan Rhagoriaeth Sgiliau Sero Net

Bydd hyn yn rhannu'r un lleoliad â'r cyfleuster cynhyrchu gweithgynhyrchu uwch ac mae swyddogion yn edrych ar ei leoliad ac yn trafod sawl opsiwn o ran tir.

Prosiect ysgogi hydrogen
Dywedwyd wrth yr aelodau fod y prosiect hwn mewn dwy ran. Prifysgol De Cymru sy'n arwain y rhan gyntaf ac mae honno'n edrych ar gynyddu capasiti cynhyrchu hydrogen ar ei safle ym Mharc Ynni Baglan.

Mae'r ail ran yn edrych ar y cysyniad o gerbydau sy'n cael eu pweru gan hydrogen, gan edrych o bosib ar gasgliadau sbwriel neu gerbydau fflyd y cyngor. Mae swyddogion yn gweithio'n agos gyda nifer o gyflenwyr ar hyn ac yn gweithio'n agos gyda Phrifysgol De Cymru ar y prosiect ysgogi hydrogen.

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau fod llawer o ddatblygiadau ar hyn o bryd yn y prosiectau ysgogi hydrogen ar draws Castell-nedd Port Talbot a'r rhanbarth ehangach ac mae swyddogion yn sicrhau bod popeth yn cyfateb â hynny.

Prosiect isadeiledd gwefru cerbydau allyriadau isel
Esboniodd swyddogion fod y prosiect hwn yn edrych ar fapio a sicrhau cydlynu ar draws y rhanbarth. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y prosiect yn gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd cyllido ar draws y rhanbarth ac yn edrych ar astudiaeth achos lle gellir gwefru ar y stryd. Mae swyddogion yn edrych ar gysylltu hynny gydag un o'r prosiectau cartrefi fel gorsafoedd pŵer yn ardaloedd y cymoedd yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Prosiect monitro ansawdd aer
Dywedodd swyddogion fod hyn yn dod i ben a bod rhai treialon o synwyryddion symudol cost isel yn digwydd, ac maent yn aros am yr

adroddiadau terfynol i gau'r prosiect hwnnw a rhannu'r hyn a ddysgwyd ohono.

Cronfa Datblygu Eiddo

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau fod hyn ar gyfer ardal fenter Glannau Port Talbot. Yn y rownd gyntaf, mae swyddogion wedi dyfarnu 3 chontract sy'n werth ychydig dros £1,000,000 a chyda buddsoddiad o £1,000,000 gan y sector preifat ar ben hynny.

Dywedodd swyddogion wrth aelodau hefyd eu bod yn monitro buddion Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel, megis trosoledd y sector preifat a'r nifer gros o swyddi a grëwyd, ynghyd â'r buddion sy'n gysylltiedig â'r targedau portffolio ehangach.

Nododd yr aelodau'r buddsoddiad o £2,000,000 mewn perthynas â'r rhaglen ysgogi hydrogen a gofynnwyd faint o arian o'r fargen ddinesig a roddwyd i hynny.

Dywedodd swyddogion mai'r buddsoddiad o £2,000,000 yw cyfanswm grantiau'r Fargen Ddinesig ar gyfer y prosiect. Mae hynny wedi'i rannu rhwng £1.5 miliwn i Brifysgol De Cymru ar gyfer y gwaith isadeiledd a phrynu'r electrolyswr, a fydd yn cynyddu'r capasiti yn y ganolfan ail-lenwi. Mae'r £500,000 sy'n weddill yn talu am y gwahaniaeth mewn costau rhwng prynu cerbyd safonol a cherbyd hydrogen mwy costus. Clustnodir hyn ac nid yw wedi'i wario hyd yn hyn.

Ar hyn o bryd mae swyddogion yn ceisio datblygu techneg â llawes gan na allent osod gwifren rhwng Canolfan Technoleg Bae Abertawe a Chanolfan Hydrogen Prifysgol De Cymru ym Mharc Ynni Baglan oherwydd heriau amrywiol. Mae swyddogion hefyd yn edrych ar gytundeb prynu pŵer.

Roedd yr aelodau'n poeni mai dim ond 300 o gerbydau sy'n cael eu pweru gan hydrogen yn y DU a llai na 15 o orsafoedd tanwydd ac roeddent yn meddwl tybed faint o gynnydd a wnaed gyda phartneriaid mewn gwirionedd.

Eglurodd swyddogion mai ychydig iawn o gerbydau hydrogen sydd ar gael am fod nifer cyfyngedig o orsafoedd ail-lenwi ar gael. Mae swyddogion yn ei ystyried fel sefyllfa'r wy a'r iâr a phe byddai sawl gorsaf ail-lenwi ledled y wlad, a sawl datblygiad ar eu cyfer yng Nghastell-nedd Port Talbot ac ar draws rhanbarth Dinas Bae

Abertawe, bydd hynny'n rhoi sicrwydd i bobl y gallant ail-lenwi eu cerbydau hydrogen.

Fodd bynnag, pwysleisiodd swyddogion nad yw'r prosiect hwn yn edrych ar geir masnachol cyffredinol ac yn hytrach yn edrych ar gerbydluoedd ac ar gerbydau cludo nwyddau trwm yn benodol, oherwydd mae hydrogen yn fwy addas i'w ddefnyddio ar gyfer cerbydau ac maent yn archwilio sawl cerbyd gyda cherbydlu CNPT a'u timau Strydlun.

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau mai nod prosiect Bargen Ddinesig Abertawe oedd creu ysgogiad hydrogen, ac mae cwmni Protium bellach wedi buddsoddi ynghyd â Phrifysgol De Cymru ac maent yn ystyried ehangu ymhellach.

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau, o ran nod cyffredinol prosiectau ysgogi hydrogen, ei fod yn gwneud yr hyn y bwriadwyd iddo ei wneud ac mae hynny'n annog mwy o orsafoedd ail-lenwi ar draws coridor yr M4 ac ar draws yr ardal ehangach, a bydd hynny'n cynyddu'r nifer sy'n defnyddio cerbydau hydrogen yn fasnachol er bod swyddogion yn edrych ar gerbydlu'r cyngor ac nid ar gerbydau personol. Dywedodd swyddogion fod yr hanner miliwn ychwanegol wedi'i neilltuo i ariannu'r bwlch rhwng cerbyd safonol a cherbyd hydrogen ac ni wariwyd hynny hyd yn hyn.

Nododd yr Aelodau fod y cerbydau'n ddrud ac ychydig iawn o leoedd y gallwch redeg cerbydau hydrogen oherwydd nad oes rhwydwaith eto, ac mae'n ymddangos bod y prosiect ar lefel sy'n debycach i lefel ymchwil.

Dywedodd swyddogion fod Protium wedi buddsoddi yn ardal Prifysgol De Cymru a gall swyddogion roi mwy o fanylion am hynny.
Roedd aelodau'n teimlo bod ganddyn nhw gyfrifoldeb i ofyn pam y gwariwyd yr arian hwn ar rywbeth y maen nhw'n credu nad yw'n ddefnyddiol o gwbl o hyd a nodwyd nad oes llawer o enghreifftiau ledled y byd lle defnyddir prosiect hydrogen o hyd. Defnyddiodd yr aelodau enghraifft o'r bysiau yn y Gemau Olympaidd yn Atlanta a nododd, pan fydd yr ysgogiad wedi mynd, nad yw'n ymddangos bod prosiectau'n parhau, er bod aelodau'n nodi ei bod yn rhan o strategaeth ynni llywodraeth y DU i gael tua 18% o gerbydau hydrogen yn y dyfodol.

Roedd yr aelodau'n amheus am y dechnoleg ac yn poeni y gallai arian trethdalwyr gael ei wastraffu arno.

Dywedodd swyddogion eu bod yn gweithio'n agos gyda John Maddie o Brifysgol De Cymru a Phrifysgol Abertawe o ran yr enghreifftiau yn yr Alban o gerbydau hydrogen sy'n cael eu defnyddio gan gynghorau ac yn edrych ar wersi a ddysgwyd o bob rhan o'r Alban a gweddill Ewrop. Dywedodd swyddogion y gwnaed hyn mewn mannau eraill ond mae angen i chi ganolbwyntio ar orsafoedd ail-lenwi. Ar hyn o bryd mae'n bosib y bydd 4 ohonynt yn cael eu datblygu o fewn Dinas-ranbarth Bae Abertawe ar gyfer ail-lenwi.

Ychwanegodd swyddogion gyd-destun pellach a nodwyd mewn perthynas â'r prosiect ysgogi hydrogen o fewn portffolio'r fargen ddinesig eu bod yn gweithio o fewn cyd-destun rhanbarthol a chenedlaethol. Hysbyswyd yr aelodau nad yw hydrogen wedi cael ei ddefnyddio ers amser hir ac mae llawer o waith i'w wneud o hyd o ran cael polisïau a chymeradwyaeth y llywodraeth, yn enwedig o ran cerbydau a defnyddio hydrogen mewn cartrefi.

Nododd swyddogion eu bod yn teimlo, o ran yr hyn sydd yn y rhanbarth rhwng cynhyrchu hydrogen, storio hydrogen a'i ddefnyddio, p'un a fydd hynny mewn cartrefi, mewn diwydiant neu ar gyfer ceir, bod gan hydrogen botensial enfawr. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau fod llawer o fusnesau a diddordeb o ran hydrogen, ond maent yn y camau cynharach, ond mae gan y fargen ddinesig botensial uchel i'w gwneud yn llwyddiannus yn y rhanbarth ac mae'r prosiect ysgogi hydrogen yn rhan o'r jig-so hwnnw ar gyfer y rhanbarth.

Dywedodd swyddogion mai nod y prosiect yw gweithredu fel prosiect ysgogi ac roeddent yn teimlo bod buddsoddiad Protium ynddo'n dangos bod y prosiect hwn yn gwneud yr hyn y mae'n ei ddweud. Nid yw'r prosiect yn ymwneud â'r cerbydau hydrogen yn unig, ond mae hefyd yn gysylltiedig â phrosiect SWITCH ac archwilio cyfleoedd yn y maes hwnnw megis masnacheiddio.

Mae swyddogion yn edrych ar y gwersi a ddysgwyd ac yn archwilio cyfleoedd gyda gweddill Ewrop.

Cynigiodd swyddogion i John Maddie, y maent yn gweithio'n agos ag ef ym Mhrifysgol De Cymru, ddod i gyfarfod cynnydd arall a chanolbwyntio ar yr agwedd hydrogen neu i aelodau gyfarfod â Phrifysgol De Cymru i drafod y gwaith hydrogen y mae'n ei wneud a'r cysylltiadau â masnacheiddio.

Cytunodd yr aelodau fod hyn yn syniad da.

Nodwyd yr adroddiad.

5. **PORTFFOLIO MONITRO CHWARTEROL BARGEN DDINESIG BAE ABERTAWE**

Rhoddodd Johnathan Burnes drosolwg i'r aelodau o adroddiad portffolio Monitro Chwarterol Bargen Ddinesig Bae Abertawe fel y'i cynhwysir yn y pecyn agenda.

Nododd aelodau mai 9,700 yw'r targed ar gyfer swyddi ar hyn o bryd, ond mae'r adroddiad yn dweud bod 615 o swyddi erbyn hyn. Gofynnodd yr aelodau pryd mae swyddogion yn credu y byddai'n dod yn agosach at y targed.

Atgoffodd swyddogion yr aelodau fod fframwaith gwerthuso wedi'i gyflwyno yn y cyfarfod diwethaf ac yn hynny roedd amserlenni awgrymedig o bryd y bydd pob prosiect yn gwerthuso elfennau o'u prosiectau.

Dywedodd swyddogion y byddant yn edrych ar effaith ehangach yr adeiladau ac nid gwaith codi'r adeilad yn unig. Pan fydd y gwerthusiadau hynny'n cael eu llunio a'u rhoi drwy'r system, bydd aelodau'n dechrau gweld niferoedd y swyddi yn cynyddu'n gyflym.

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau o ran pryd y byddant yn cael yr adroddiadau, a'r un cyntaf fydd cam un Yr Egin a bydd hynny'n mynd i'r cydbwyllgor ym mis Rhagfyr ar gyfer eu gwerthusiad economaidd. Marina Abertawe fyddai nesaf, ac yna Arena Abertawe. Ar ôl hynny, bydd cyfres gyfan o bethau a fydd yn digwydd dros y blynyddoedd nesaf.

Dywedodd swyddogion eu bod yn cynnal gwerthusiad economaidd o brosiectau ar ôl o leiaf blwyddyn neu ddwy o weithredu a rhoddwyd enghraifft o brosiect SWITCH na fydd yn cael ei gwblhau ar ddiwedd 2026. Mae hyn yn dangos y gallai'r gwerthusiadau fynd hyd at oddeutu 2028/2029.

Gofynnodd yr aelodau am eglurhad ynghylch y ffigurau ar yr adroddiad. Nododd yr aelodau nad yw cyfanswm y targed buddsoddi wedi newid o'r adroddiad blaenorol, sef £1262.19m, a chyfanswm y buddsoddiad hyd yn hyn yw £318.23m. Nododd yr Aelodau, os ydych yn darllen y gwariant ariannol ar gyfer chwarter pedwar y llynedd a'r adroddiad diweddaru blynyddol, mae cyfanswm y targed buddsoddi'n ffigwr gwahanol, sef £1278.27m ar gyfer chwarter pedwar y llynedd

ac mai cyfanswm y buddsoddiad hyd yn hyn yw £354m. Ceisiodd yr aelodau eglurhad o ran a oedden nhw'n darllen y ffigurau'n anghywir neu a yw'r ffigurau yn yr adroddiad yn anghywir.

Dywedodd swyddogion y byddent yn gwirio'r rhesymau y tu ôl i'r amrywiad eto a dywedodd y byddent yn rhoi ateb ffurfiol i'r aelodau'n ysgrifenedig drwy'r Cadeirydd i esbonio pam mae amrywiaeth yn y gwerthoedd.

Dywedodd yr Aelodau fod Cyngor Sir Penfro'n bryderus iawn ar hyn o bryd gyda'r Porthladd Rhydd Celtaidd a gofynnwyd pa effaith y mae'r porthladd rhydd yn ei chael ar y Fargen Ddinesig, neu a fydd yn cael unrhyw effaith ar gynlluniau'r Fargen Ddinesig.

Dywedodd swyddogion eu bod wedi canfod mewn perthynas â Bargen Ddinesig Bae Abertawe, fod llawer o'r partneriaid sy'n ymwneud â'r fargen ddinesig a'r porthladdoedd rhydd. Mae'r uwch berchnogion cyfrifol, fel Nicola Pearce, sef Cyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio yng Nghastell-nedd Port Talbot a Rachel Moxie o Gyngor Sir Penfro, yn uwch berchnogion cyfrifol ar gyfer prosiectau'r fargen ddinesig.
Dywedodd swyddogion fod Prosiect Morol Doc Penfro a chefnogi arloesedd a thwf carbon isel wedi helpu i sbarduno'r cais am borthladdoedd rhydd. Dywedodd swyddogion fod llawer o bethau eraill yn digwydd a bod partneriaid yn ymwneud â phethau sy'n ehangach na'r Fargen Ddinesig, ond roedd y rheini'n rhan o'r broses ymgeisio.

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau fod cysylltiad rhwng y bobl ac amcanion yr hyn y mae'r fargen ddinesig a'r Porthladd Rhydd yn ceisio ei wneud, megis creu swyddi, buddsoddiad a chydweithio. Hysbysodd swyddogion yr aelodau fod popeth yn cael ei adlewyrchu ar draws y ddwy fenter oherwydd bod llawer o bethau eraill sy'n digwydd ar draws y rhanbarth sydd hefyd yn cael eu heffeithio gan y fargen ddinesig, o ran mewnbwn ac allbwn. Defnyddiodd swyddogion esiampl Arena Abertawe, sydd hefyd wedi helpu i sbarduno pethau eraill ar draws canol y ddinas.
Mae swyddogion yn teimlo y gallent ddewis pob prosiect unigol ac edrych ar yr hyn sydd wedi digwydd o'u cwmpas a dyna maen nhw'n gobeithio ei wneud drwy'r gwerthusiadau gan edrych ar y gwerthusiad effaith ehangach o'r hyn y mae'r prosiectau hyn wedi'i ysgogi a'i gyflwyno ar gyfer y rhanbarth.

Cynigiodd Jonathan Burnes i siarad â'r cynghorwyr am y materion hyn os oedd ganddynt unrhyw gwestiynau ychwanegol.

Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r aelodau y cynhaliwyd y cyfarfodydd pwyllgor craffu ar y Porthladd Rhydd cyntaf ar gyfer y tîm Craffu a'r aelodau, ac maent wedi awdurdodi'r cyllid 1af o £25,000,000 i symud y Porthladd Rhydd yn ei flaen gyda £10 miliwn ar gyfer Cyngor Sir Penfro a £15,000,000 i Gastell-nedd Port Talbot i ddechrau ar bopeth.

Gofynnodd yr aelodau pryd y byddent yn derbyn yr adroddiadau gwerthuso. Eglurodd swyddogion fod llawer o amserlenni ar draws y portffolio, ond yr adroddiad gwerthuso cyntaf fydd ar gyfer Yr Egin a'r gobaith yw y gwneir hyn erbyn y cyfarfod nesaf. Yr adroddiad nesaf ar ôl hynny fydd ar gyfer Arena Abertawe, sydd wedi'i drefnu ar gyfer y flwyddyn nesaf.
Dywedodd yr aelodau yr hoffent weld pa fanyleb yw'r gwerthusiad, sut mae'n cael ei werthuso a phwy sy'n gwneud y gwerthusiad.

Eglurodd swyddogion y bydd yn amlwg ar gyfer Yr Egin pan gaiff ei adrodd, ond ni wnaed penderfyniad eto ynghylch yr hyn y gofynnir amdano yn y gwerthusiad a phwy fydd yn cael ei benodi i'w wneud. Rhaid i'r holl werthusiadau yn y dyfodol fynd trwy broses gaffael.

Defnyddiodd yr aelodau esiampl Arena Abertawe a dywedodd y gallwch ofyn yn y gwerthusiad sut mae'r arena o fudd i'r rhanbarth cyfan, neu gallwch ofyn sut y mae o fudd i'r ardal lle mae'r arena wedi'i lleoli. Teimlai'r aelodau mai dyma'r fethodoleg a fydd yn rhoi cysur i bobl sydd eisiau gwybod yr hyn maen nhw wedi'i dderbyn o ganlyniad i'w buddsoddiad.

Esboniodd swyddogion fod rhan o'r fethodoleg honno yn y fframwaith gwerthuso, ond ni fyddai'n nodi pob un manylyn unigol, ond byddai'n dweud yn y fframwaith gwerthuso y byddai unrhyw amcan portffolio fel swyddi, effaith economaidd a buddsoddiad yn cael ei werthuso. Byddai hyn yn cael ei werthuso'n lleol, yn rhanbarthol ac o bosib yn genedlaethol.

Dywedwyd wrth yr aelodau'n ogystal fod gan bob prosiect a rhaglen gynllun gwireddu buddion, a dylid profi'r buddion hynny yn erbyn gwerthusiad o'r prosiect neu'r rhaglen a dyna'r hyn a ddylai fod yn ffocws ar gyfer y rheini, er mai mater i'r sefydliadau cyflawni arweiniol yw nodi'r hyn y byddant yn ei werthuso.

Dywedodd swyddogion fod ganddynt broffiliau gwerthuso ar gyfer pob prosiect unigol sy'n manylu ar yr hyn y maent yn bwriadu ei werthuso ac ar yr adeg pan fyddant wedi amcangyfrif pryd y maent yn gobeithio cyflawni'r rhain.

Dywedodd yr aelodau fod llawer o ragamcanion yn yr holl gynlluniau busnes y mae'n rhaid eu profi yn eu herbyn a'u bod yn teimlo ei fod yn fater pwysig o ran y fethodoleg a sut y bydd hynny'n cael ei strwythuro a phwy sy'n mynd i wneud hynny.

Nodwyd yr adroddiad.

6. **ADRODDIAD MONITRO ARIANNOL 2023/24 - SEFYLLFA ALLDRO DROS DRO CH4**

Rhoddodd Stephen Aldred-Jones drosolwg i'r aelodau o'r adroddiad fel y'i cynhwysir yn y pecyn agenda.

Gofynnodd yr Aelodau beth oedd ystyr 'dangosir bod y sefyllfa fuddsoddi amcangyfrifedig gyffredinol ar £1.278 biliwn'. Eglurodd swyddogion fod y ffigwr yn cynnwys grant y fargen ddinesig gan Lywodraethau Cymru a'r DU o £241m ac mae hefyd yn cynnwys yr arian y mae cyrff eraill yn y sector cyhoeddus yn ei roi iddo, ynghyd â buddsoddiad y sector preifat. £1.278 biliwn yw'r cyfanswm terfynol.

Tynnodd yr aelodau sylw at y gyllideb fuddsoddi gyffredinol a gofynnwyd ai 'arian dyledus' oedd hwn.

Eglurodd swyddogion mai dyma'r grantiau y mae'r Fargen Ddinesig wedi'u derbyn oddi wrth Lywodraethau Cymru a'r DU ac mai balans hyn ar ddiwedd 23/24 oedd £54.4 miliwn.

Esboniodd swyddogion fod y cyfrif wedi ennill llog wrth aros am y dyraniadau grantiau gael eu rhoi i bartneriaid unigol yr awdurdod.

Mae'r partneriaid wedi bod yn aros i gyflwyno'u hawliadau ond nid ydynt wedi gallu gwneud hynny hyd yn hyn oherwydd oedi ar brosiectau.
Talwyd y llog a enillwyd yn y cyfrif i'r awdurdodau unigol ar sail pro rata.

Esboniodd y swyddogion y bydd yr arian a ddelir yn y cyfrif yn cael ei dalu i'r partneriaid pan fyddant yn gwneud eu hawliadau pan fydd y prosiectau'n dal i fyny ar ôl yr oedi.

Gofynnodd yr aelodau gan fod llywodraeth newydd bellach yn San Steffan, a fydd yr holl gyllid yn dal i gael ei sicrhau ar gyfer bargen ddinesig Bae Abertawe ac a oes unrhyw risg y gellid tynnu unrhyw ran o hwnnw'n ôl?

Dywedodd swyddogion eu bod wedi cael sicrwydd sawl tro bod y cyfan wedi'i neilltuo a'i fod yn ddiogel, gan dybio bod popeth yn mynd yn ei flaen fel y'i cynlluniwyd yn ôl yr hyn a nodwyd yn yr achosion busnes.
Dywedodd swyddogion y byddai'n rhaid iddynt fynd trwy gais newid os nad yw hyn yn digwydd, a gellid anfon hwnnw at y llywodraethau i'w gymeradwyo gan ddibynnu ar yr hyn y gallai'r newidiadau hynny ei olygu. Ailadroddodd swyddogion ynghylch y statws presennol a bod yr arian wedi'i neilltuo a'i fod yn cael ei ddarparu ar draws y portffolio.

Nododd swyddogion fod bargeinion dinesig a thwf eraill ledled y wlad, a bod yr Alban a Gogledd Iwerddon wedi cael eu hysbysu bod yn rhaid iddynt aros tan yr adolygiad gwariant cynhwysfawr yn ddiweddarach yn y flwyddyn i benderfynu a yw'r arian hwnnw'n cael ei ryddhau ar gyfer y bargeinion dinesig a thwf hynny, oni bai eu bod wedi dechrau eu cyflwyno. Nid yw Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn y sefyllfa honno ar hyn o bryd.
Rhoddodd yr wybodaeth hon sicrwydd i'r aelodau.

Nodwyd yr adroddiad.

## 7. RHAGARCHWILIAD O'R DATGANIAD O GYFRIFON BLYNYDDOL

Cyflwynodd Stephen Aldred-Jones yr adroddiad yn unol â'r pecyn agenda a rhoddodd gyd-destun i'r aelodau mai Cyngor Sir Gâr yw'r corff atebol sy'n gyfrifol am stiwardiaeth ariannol Bargen Ddinesig Bae Abertawe a dyma'r bedwaredd flwyddyn lle bu'n rhaid i swyddogion lunio datganiad cyfrifon yn unol â chyfrifon a rheoliadau Archwilio Cymru.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod y rhagarchwiliad o'r datganiad yn cael ei archwilio gan Archwilio Cymru ar hyn o bryd yn unol â'i chynllun archwilio manwl a bydd unrhyw ddiwygiadau a nodir yn cael eu nodi yn adroddiad ISA 260.

Diolchodd yr aelodau i'r swyddogion am yr adroddiad ond nid oedd ganddynt unrhyw gwestiynau.

Nodwyd yr adroddiad.

8. **ADRODDIAD BLYNYDDOL BARGEN DDINESIG BAE ABERTAWE**

Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau bod ganddynt Atodiad 8A, sef Adroddiad Blynyddol Bargen Ddinesig Bae Abertawe 2023/24, sy'n ymwneud â'r eitem hon, ac felly byddant yn cymryd Eitem 8 ac Atodiad 8A ar yr un pryd.

Rhoddodd Jonathan Burnes drosolwg i'r aelodau o'r adroddiad sydd wedi'i gynnwys yn y pecyn agenda. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau mai dyma'r drydedd fersiwn o adroddiad blynyddol Bargen Ddinesig Abertawe ac eglurodd fod yr adroddiad yn anelu at grynhoi a dathlu'r holl gyflawniadau a cherrig milltir allweddol rhwng Ebrill '23 a Mawrth '24, gan atgyfnerthu popeth y byddai swyddogion yn ei ddisgwyl ynghylch aliniad y Fargen Ddinesig a'r pwysigrwydd i'r economi ranbarthol, gan sicrhau bod mewnwelediad i randdeiliaid ei ddarllen am yr hyn sy'n digwydd neu a ddigwyddodd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a beth y disgwylir iddo ddigwydd yn y flwyddyn ariannol hon.

Mae swyddogion yn gweithio gyda holl dimau'r prosiect, yr uwch berchnogion cyfrifol, y partneriaid cyflenwi allweddol a bwrdd y rhaglen etc., i sicrhau eu bod yn casglu cymaint o wybodaeth ag y gallant ac yn ei phrosesu mewn ffordd mor gryno â phosib.

Amlygodd yr aelodau ei fod yn gadarnhaol gweld yr holl waith da sy'n digwydd ar draws y rhanbarth a'r holl brosiectau a nodwyd ei bod yn eithaf cadarnhaol gweld yr holl newidiadau a'r datblygiad, a chanmolwyd y tîm cyfan am y gwaith y maent yn ei wneud.

Nodwyd yr adroddiad.

9. **ADRODDIAD BLYNYDDOL BARGEN DDINESIG BAE ABERTAWE 2023-24**

Nodwyd yr adroddiad.

10. **ADRODDIAD ADOLYGIAD YR ASESIAD EFFAITH ADEILADU**

Rhoddodd Jonathan Burnes drosolwg i'r aelodau ynghylch Adroddiad Adolygiad yr Asesiad Effaith ar Adeiladu.

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau fod yr asesiad effaith ar adeiladu yn adroddiad chwarterol y mae swyddogion yn ei lunio.

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau nad oes unrhyw newid o'r chwarter blaenorol o ran yr asesiad effaith ar adeiladu.

Esboniodd swyddogion mai'r bwlch ariannu cyffredinol yw £43.5 miliwn a bu cyfres o fesurau lliniaru i lenwi'r bwlch hwnnw.

Dywedodd swyddogion fod bwlch gweddilliol o £12 miliwn bellach, ac mae prosiectau'n gweithio ar hynny hefyd.

Cafodd yr aelodau wybod mai dim ond un risg sy'n cael ei ychwanegu ar gyfer Pentre Awel, sy'n ymwneud ag oedi wrth adeiladu.

Atgoffodd swyddogion yr aelodau mai'r mesurau lliniaru allweddol yw naill ai i nodi ffynonellau cyllid ychwanegol i lenwi'r bylchau, ailedrych ar y briff dylunio neu'r cwmpas a mynd i drafodaethau hirach gyda chontractwyr Haen 1 a'r gadwyn gyflenwi ynghylch costau cynyddol.

Gofynnodd yr aelodau a ddefnyddiwyd unrhyw beirianneg gwerth hefyd?

Dywedodd swyddogion fod adeiladwaith adeiladau wedi bod yn un o'r mesurau lliniaru ynghyd â'r dewis o leoliad yr adeiladau a'u maint.

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau, o ran y cwmpas, fod swyddogion wedi nodi, drwy unrhyw newid briff dylunio neu newidiadau cwmpas, nad yw'n newid canlyniad yr hyn a fydd yn digwydd o ganlyniad.

Defnyddiodd swyddogion esiampl cyfleuster cynhyrchu SWITCH, y cyfleuster datgarboneiddio dur yng Nghastell-nedd Port Talbot a Phrifysgol Abertawe. Mae maint yr adeilad yn llai oherwydd ei fod yn faint bras, ond gall gynnal yr hyn y maent wedi'i gynllunio iddo ei gynnal yn wreiddiol o hyd. Esboniodd swyddogion eu bod yn torri'n ôl heb effeithio ar y canlyniadau cyflwyno.

Rhoddodd swyddogion yr esiampl hefyd eu bod wedi haneru maint y ffasâd o wydr ar gynllun Pentre Awel i leihau cost cynhyrchu a chludo'r gwydr i'r safle. Newidiodd y prosiect matrics eu hadeiladwaith hefyd.

Atgoffwyd yr aelodau fod deunyddiau, costau, tanwydd a phrisiau ynni'n uwch nag yr oeddent pan ddatblygwyd yr achosion busnes. Er

y bydd cost uwch, mae swyddogion yn lleihau hynny drwy'r mesurau lliniaru ac yn cau'r bwlch hwnnw.

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau fod Bwrdd y Rhaglen wedi gofyn i swyddogion ailasesu ac ail-lunio'r Asesiad Effaith ar Adeiladu a gofyn iddynt edrych ar 4 maes.

• Gwerth am arian wrth ddyrannu arian cyhoeddus.
• Hyblygrwydd o ran caffael, yn enwedig mewn fframweithiau.
• Llywio adolygiad ar gyfer y strategaeth gaffael ranbarthol.
• Datrysiadau partneriaeth i fynd i'r afael â'r materion o ran sgiliau sy'n effeithio ar y diwydiant adeiladu.

Mewn perthynas â chaffael, dywedodd yr aelodau nad ydynt yn cefnogi'n gryf y syniad o gael rhestr o gontractwyr i alw arnynt i gynorthwyo yn y rhaglenni. Gofynnodd aelodau a roddir unrhyw lwyth i gwmnïau lleol?

Esboniodd swyddogion o ran y sefyllfa â chontractwyr haen 1 eu bod yn cael eu rhwystro'n anffodus gan nifer y contractwyr haen un sydd yng Nghymru, heb sôn am y nifer sydd yn y rhanbarth.

Fodd bynnag, maent bob amser yn ceisio trin cadwyni cyflenwi lleol yn fwy ffafriol o fewn y fframwaith, sydd weithiau'n gweithio'n dda oherwydd bod cyflenwyr dur a phren lleol, ond ar adegau eraill fel yn achos Pentre Awel, ni allai neb gynhyrchu'r coed yr oedd eu hangen arnynt ar ei gyfer yng Nghymru, a bu'n rhaid eu caffael o rywle arall.

Esboniodd swyddogion fod rhai deunyddiau arbenigol nad oes llawer o gyflenwyr ar eu cyfer ar draws Ewrop hyd yn oed, heb sôn am yn y rhanbarth, ond byddant bob amser yn ceisio gwthio tuag at ddefnyddio cwmnïau lleol.
Mae'n ofynnol i'r holl gontractwyr haen 1 weithio gyda phartneriaid cyflenwi arweiniol i nodi a chrynhoi faint sydd wedi mynd drwy'r gadwyn gyflenwi leol ac maent yn defnyddio codau post SA i nodi faint o fusnesau a faint o gontractau a ddyfarnwyd i'r gadwyn gyflenwi leol.

Nododd yr aelodau nad oes unrhyw wneuthurwyr sment ar ôl yng Nghymru ac yn aml, mae'n rhaid i sment ddod o rywle arall, ac eglurodd fod cynllun y tu hwnt i frics a morter yn Abertawe wedi'i roi ar waith ar draws y rhanbarth. Roedd yr aelodau'n falch o weld sut mae swyddogion yn bwrw ymlaen i gaffael.

Ychwanegodd swyddogion, os yw'r rhanbarth yn datblygu ac yn adeiladu, yna dylai hynny ddenu mwy o bobl, yn enwedig o ran contractwyr haen un a'r gadwyn gyflenwi i ddechrau edrych ar sut maen nhw'n eu cyflenwi o Gymru neu o'r rhanbarth ar draws y DU ac Ewrop hefyd.

Dangosodd swyddogion fod hyn yn cysylltu â rhan o'r hyn y bydd y rhaglen sgiliau a thalent yn ei wneud, sef edrych ar ddulliau adeiladu newydd ac ar ddulliau adeiladu cynaliadwy ac uwchraddio pobl i weithio yn yr ardaloedd hynny fel bod gweithlu talentog sy'n gweithio o fewn y rhanbarth a'r tu allan iddo ar gyfer anghenion adeiladu yn y dyfodol.

Nododd yr aelodau bod angen dod â llawer o'r deunyddiau inswleiddio a rhai o'r ffenestri etc. ar gyfer adeiladu'r tai ynni effeithlon iawn y mae'r fargen ddinesig wedi'u hadeiladu o'r cyfandir oherwydd nid ydynt yn cael eu cynhyrchu yn y DU. Roedd yr aelodau'n gobeithio y bydd rhywun yn lleol neu yn y DU yn dechrau gwneud hynny rywbryd.

Nododd swyddogion hyn a rhoddodd yr enghraifft o ymweliad aelodau â safle Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer, lle roeddent yn sôn am ddefnyddio gwlân ar gyfer inswleiddio a defnyddio cadwyni cyflenwi lleol ar gyfer hynny.

Cydnabu swyddogion bod cymysgedd o orfod mewnforio a dod â phethau i mewn a chydbwyso hynny â'r hyn y gallant ei ddefnyddio o ran adnoddau naturiol neu weithluoedd lleol hefyd.

Nodwyd yr adroddiad.

11. **ADRODDIAD AM GYFLWYNO DIGWYDDIADAU LLEOL CWRDD Â'R FARGEN DDINESIG 2023/24**

Rhoddodd Jonathan Burnes wybod i'r aelodau ei fod yn adroddiad cadarnhaol ac eglurodd fod dathliad wedi'i gynnal yn 2022 bod Bargen Ddinesig Bae Abertawe'n cael ei chyflawni'n llawn gyda digwyddiad a gynhaliwyd ym Mharc y Scarlets. Canfu'r swyddogion, er ei fod wedi mynd yn dda, a bod ganddynt lawer o fynychwyr, eu bod yn ystyried y mynychwyr fel y rheini y byddent yn eu disgwyl bob tro o ran swyddogion y llywodraeth, swyddfeydd a busnesau'r llywodraeth a rhanddeiliaid allweddol amrywiol eraill ar gyfer y fargen ddinesig.

Derbyniodd swyddogion adborth o'r digwyddiad sef y dylent fynd allan i bedair ardal yr awdurdod lleol a chynnal 'digwyddiad cwrdd â'r fargen ddinesig', sef yr hyn y maent wedi'i gynnal ac yr oedd yn sail yr adroddiad.

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau y cynhaliwyd pedwar digwyddiad a oedd yn canolbwyntio ar yr ardal leol y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Roedd ganddynt dros 30 o arddangoswyr. Gweithiodd swyddogion mewn partneriaeth â llawer o sefydliadau sy'n helpu i gefnogi busnesau, ac roedd cynrychiolydd o bob un ohonynt yn bresennol yn y pedwar digwyddiad.

Roedd dros 500 o gofrestriadau, ac roedd 58% o'r cofrestriadau hynny yn bresennol ynddynt. Roedd swyddogion yn teimlo bod hynny'n wych ac roeddent yn falch bod tua 3/4 o'r mynychwyr yn dod o'r sector preifat a chanfu fod y mynychwyr yn cwrdd â phrosiectau nad oeddent o reidrwydd yn eu hardal leol. Roedd hyn yn caniatáu iddynt siarad am synergeddau a chyfleoedd a chafwyd sgyrsiau rhwng y prosiectau a'r arddangoswyr a gefnogodd y digwyddiad.

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau fod 80% o'r rheini a fu'n bresennol wedi dweud bod y digwyddiadau'n ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn, a theimlai swyddogion eu bod yn dangos bod y digwyddiadau hynny'n llwyddiannus a'u bod yn gweithio. Esboniodd swyddogion eu bod yn mynd i edrych ar y gyfres nesaf o ddigwyddiadau y gallant eu cynnal ac y cynhelir y rheini o fewn y chwarter nesaf.
Gofynnodd yr aelodau i'r Pwyllgor Craffu gael eu gwahodd i'r digwyddiadau Cwrdd â'r Fargen Ddinesig newydd i weld beth sy'n digwydd ynddynt.

Cytunodd y Cadeirydd a'r swyddogion y byddai hynny'n syniad da gan y byddent yn cael cwrdd â'r timau ar lawr gwlad a gweld pethau ar draws y portffolio.

Nododd y Cadeirydd fod rhai aelodau eisoes wedi mynd i'r digwyddiadau, gan gynnwys ef ei hun.

Nodwyd yr adroddiad.

12. **BLAENRAGLEN WAITH 2024/25**

Nododd aelodau'r pwyllgor y Flaenraglen Waith.

13. **EITEMAU BRYS**

Ni chafwyd unrhyw eitemau brys.

TRAILER_SECTION>

**CADEIRYDD**